



Lleoliadau nas cynhelir

Cwestiynau hunanfyfyrto i helpu arweinwyr mewn lleoliadau nas cynhelir i werthuso ansawdd eu darpariaeth

- I ba raddau ydych chi'n gyfarwydd â'r cwricwlwm ar gyfer lleoliadau a ariennir nas cynhelir?
- I ba raddau ydych chi'n gyfarwydd â'r llwybrau datblygu sy'n ymwneud â pherthyn, cyfathrebu, archwilio, datblygiad corfforol a lles? Sut mae eich darpariaeth yn cefnogi'r llwybrau datblygu?
- I ba raddau mae ymarferwyr yn eich lleoliad yn ymddwyn fel oedolion sy'n galluogi dysgu?
- A yw eich lleoliad yn rhoi pwyslais priodol ar gyfnodau chwarae estynedig?
- Pa mor dda ydych chi'n arsylwi ac yn ymyrryd mewn chwarae plant?
- Pa mor dda ydych chi'n cynorthwyo i ddatblygu medrau plant wrth iddynt fwynhau gweithgareddau chwarae?
- Pa mor dda ydych chi'n defnyddio sgwrsio i helpu plant i ddatblygu wrth iddynt chwarae? A ydych yn chwilio am gyfleoedd i ddatblygu eu geirfa, er enghraifft, neu i gyflwyno termau rhifedd wrth iddynt chwarae?
- I ba raddau ydych chi'n helpu plant i ddatblygu eu medrau Cymraeg?
- I ba raddau ydych chi'n darparu gweithgareddau dysgu sydd wedi'u hysbrydoli gan ddiddordebau'r plant?
- I ba raddau ydych chi'n sicrhau eich bod yn ehangu dealltwriaeth a diddordebau plant, er enghraifft trwy eu cyflwyno i dreftadaeth Cymru a diwylliannau amrywiol?